

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 1af 2018 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Gwenda Morris, Gary Thomas, Eilir Rowlands, Alwyn Jones, Maldwyn Jones, Eifion Davies, Rita Jones a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gethin Morris, Dewi Pritchard, Gwynedd Jones, Iolo Evans, Gwenda Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Cydymdeimlwyd ac Iolo a Gwenda Evans a'u teuluoedd yn dilyn eu profedigaeth ddisymwth yn ddiweddar.

Cyfarfod Blynyddol.

i) Gan nad oedd Gwynedd Jones yn gallu bod yn bresennol cytunodd Gwenda Morris i aros yn y gadair i gadeirio'r cyfarfod. Etholwyd Rita Jones yn is-gadeirydd.

ii) Etholwyd y cynrychiolwyr canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd. Partneriaeth Penllyn/Cwmni Pum Plwy Penllyn: Eifion Davies. Gan fod angen ail enw cytunwyd i ofyn i Gwynedd Jones a oedd ganddo ddiddordeb i fynychu'r cyfarfodydd.

Pwyllgor Cantref: Eilir Rowlands

Gorff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel: Eifion Davies. Gofynnwyd i'r clerc gael cadarnhad o'r trefniadau newydd ynglŷn ag ethol cynrychiolydd am yn ail gyda Chyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfodydd Lleol Yr Heddlu: Alwyn Jones

iii) Cyfrifon 2017-18.

Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2017-18 gan y clerc, a chafwyd hwy yn gywir.

iv) Archwiliad Mewnol y Cyngor.

Adolygwyd trefniadau archwiliad mewnol y Cyngor a chafwyd yn gywir. Adroddodd y clerc bod y Ffurflen Archwiliad Blynyddol wedi cyrraedd ac roedd trefniadau mewn lle i Gyngor Gwynedd archwilio'r cyfrifon yn yr wythnosau nesa.

v) Adolygu Rhestr o ffioedd y mynwentydd.

Gan fod y Cyngor wedi ymrwymo i fabwysiadu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a pheidio codi unrhyw ffioedd mewn perthynas â chladdu plentyn o dan 18 cytunwyd i ddileu'r ffioedd oddi ar y rhestr gyfredol. Cytunwyd i gadw'r ffioedd eraill yr un fath. Darllenwyd yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd ynglŷn ag adennill unrhyw gostau mewn perthynas â chladdu plentyn a gofynnwyd i'r clerc eu hysbysu fod y Cyngor Cymuned wedi mabwysiadu'r Memorandwm.

vi) Gydabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2018/19.

Cytunwyd yn unfrydol i beidio mabwysiadu'r argymhellion i dalu costau a lwfansau i'r cynghorwyr cymuned. Gan fod Penderfyniad 51, ad-dalu costau gofal, yn orfodol cytunwyd i'w fabwysiadu.

vii) Adolygu Asedau, Polisïau a Rheoliadau'r Cyngor.

Cytunwyd bod y Rheoliadau Mewnol ac Asesiad Risg bresennol yn gywir. Adolygwyd y rhestr asedau a chytunodd y cynghorwyr i archwilio'r llochesi bws ac adrodd yn nol am eu cyflwr yn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd i wneud trefniadau yn y cyfarfod ym mis Mehefin i archwilio'r mynwentydd. Nodwyd fod Pwyllgor Cae Chwarae Llandderfel wedi llwyddo i gael arian i brynu offer newydd a gofynnwyd i'r clerc gadarnhau'r manylion gyda'r pwyllgor a diweddarau'r rhestr asedau a'r polisi yswiriant.

viii) Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Adroddodd y clerc ei bod wedi cychwyn ar y gwaith GDPR ond roedd y diffyg arweiniad gan Un Llais Cymru a phrinder adnoddau yn rhwystredig iawn. Eglurodd fod angen i'r Cyngor gymryd camau priodol i ddiogelu data personol y clerc, y cynghorwyr eu hunain, contractwyr yn ogystal â'r cyhoedd. Dosbarthwyd yr

hysbysiad preifatrwydd perthnasol i'r clerc a'r cynghorwyr. Rhoddwyd caniatâd i'r clerc brynu cwpwrdd gyda chlo i storio'r gwaith papur yn ddiogel.

Cyfarfod Misol.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

i) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

a) Plymen o rew rhwng Tŷ Newydd a Tyn Bwlch, Llandderfel.

Cafwyd cadarnhad fod dŵr yn codi ar y safle ac y byddant yn gwneud archwiliad manwl yn fuan i geisio datrys y broblem.

b) Cerrig wedi gosod o flaen Derfel Gadarn, Llandderfel.

Roedd y mater wedi cael ei anfon ymlaen i sylw'r Archwiliwr Gorfodaeth Priffyrdd ac roedd y cerrig ychwanegol wedi cael ei symud.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd

i) Chopi o Orchymyn Cyngor Gwynedd - Gwahardd a chyfyngu aros a manau parcio ar y stryd (Ardal Meirionnydd) 2018 – Heol yr Eglwys a Heol Trafalgar, Llandderfel.

b) Parc Cenedlaethol Eryri

i) Cynllun Datblygu Lleol adolygedig Eryri 2016-2031 – copi o'r ddogfen 'Newidiadau Ffocws'

c) Un Llais Cymru

i) Llythyr o ddiolch am ailymaelodi.

ch) Amrywiol

i) Pwyllgor Neuadd Bro Derfel

Derbyniwyd cynnig gan y Pwyllgor i wneud cais am arian o Gronfa Cymunedol Lleol y Co-op i wneud gwelliannau i ffordd y fynwent yn Llandderfel. Yn anffodus gan nad oedd y Cyngor yn berchen ar y ffordd nid oedd wedi bod yn bosib cyflwyno'r cais. Gofynnwyd i'r clerc ddiolch yn fawr iddynt am eu holl waith yn y gymuned.

ii) Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig.

Derbyniwyd gwybodaeth am eu cystadleuaeth 'Gwobr Pentrefi Meirionnydd 2018'. Cytunwyd i basio'r wybodaeth ymlaen i'r pwyllgorau lleol.

iii) Mapio'ch Cyngor.

Derbyniwyd gwybodaeth am eu gwasanaeth mapio. Cytunwyd fod gan y Cyngor mapiau digonol yn barod.

iv) Gofalwr mynwent Llandderfel.

Yn dilyn y cyfarfod ym mis Mawrth derbyniwyd llythyr gan ofalwr y fynwent yn egluro ei fod am roi'r gorau i'r gwaith oherwydd ei iechyd. Gofynnwyd i'r clerc anfon llythyr o ddiolch iddo am ei waith ar hyd y blynyddoedd. Wedi ymgynghori gyda'r cynghorwyr roedd y clerc wedi trefnu i hysbysebu'r gwaith yn y papur a derbyniwyd nifer o dendrau. Trafodwyd y prisiau a dderbyniwyd a chytunwyd i roi'r gwaith i Gwmni Ciltalgarth.

v) Ceisiadau Cynllunio.

i) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-

C18/0310/04/LL – Codi sied ar safle sied bresennol. Bryn Ffynnon, Sarnau.

C18/0300/04/LL - Addasu adeilad allanol yn dy gydag unedau gwely a brecwast, ac addasu adeiladau allanol yn unedau gwyliau. Beudy Bryn Banon, Llanfor.

vi) Materion Ariannol.

i) Derbyniwyd rhandal cyntaf y Praesept - £4,500.

ii) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Came & Company (Yswiriant) - £833.62

iii) Ceisiadau ariannol

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Steve Morgan Foundation, RABI Meirionnydd a Bobath. Gan fod RABI Meirionnydd yn gofyn am gyfraniad i gyd fynd a digwyddiad ym mis Mehefin cytunwyd i gyfrannu £50 a chadw'r ceisiadau eraill a'u trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

vii) Materion lleol

Cytunwyd i basio'r cwynion canlynol ymlaen i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd a'r Asiantaeth Cefnffyrdd.

i) Wal pont Llandderfel - roedd y cynghorwyr yn ymwybodol fod y gweithlu yn trwsio'r wal o dan Bryn Tirion ond roedd pryder am ei chyflwr yn is i lawr lle'r oedd twll mawr heb unrhyw rwystr/barrier i'w ddiogelu.

ii) Ffordd Cefnddwysarn i Gwm Main - derbyniwyd nifer o gwynion am gyflwr y ffordd – tyllau mawr ger Pont Cynlas Bach a allai ddifrodi cerbydau.

iii) Creu man pasio ger Ty'n Bryn, Cefnddwysarn - gan fod llawer o draffig o'r maes carafanau gerllaw (Caravan Club) a gyrwyr yn methu pasio ei gilydd derbyniwyd cais i greu man pasio gerllaw.

iv) Twll archwilio wedi malu ar yr A494 rhwng y Bryn a phentref Llanfor.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth,
Mehefin 5ed yn Neuadd Sarnau am 7.30 y.h.**